

Wrth iddynt wneud cynnydd

Ar Garlam i'r Gofod

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Darllenwch ran benodol o'r stori/ chwaraewch ran benodol o'r stori oddi ar y CD-Rom

Anogwch y plant i:

- Archwilio hwyliau a theimladau gan ddefnyddio symudiadau syml, e.e. Sut maent yn teimlo pan fyddant yn cyrraedd y Planed Chwarae o'i gymharu â phan fyddant yn dychwelyd i'r ardd?
- Archwilio gan ddefnyddio gweithrediadau dawns sylfaenol – teithio, troi, neidio, ystum a llonyddwch – i greu cymal/ motiff/dilyniant byr; e.e. cymal 'ysgwyd a chrynu', neu gymal 'adeiladu llong ofod', neu gymal 'chwarae pêl-droed'
- Archwilio newidiadau o ran cyfeiriad a lefel i greu cymalau mwy diddorol, e.e. mynd â chymal 'creadur estron' i'r llawr



Cyfleoedd i:

- ddatblygu symudiadau i ymateb i wahanol symbyliadau
- archwilio a mynegi hwyliau, teimladau a syniadau trwy symudiadau syml y gellir eu hailadrodd
- symud mewn gwahanol ffyrdd, gan greu siapiau amrywiol â'r corff a newid cyfeiriad a lefel

Adnoddau

- Llyfr stori 'Planed Chwarae'
- Lluniau o'r llyfr
- Ystod o beli
- Ceffylau pren
- Deunyddiau i wneud llong ofod, creaduriaid
- Clipiau sain 'Planed Chwarae'

Cwestiynau

- Beth sy'n digwydd i'ch symudiadau wrth i'r creaduriaid ddechrau codi ofn arnoch?
- Sut gallech chi ddangos y llong ofod yn glanio'n ôl ar y ddaear?
- Yn eich barn chi, sut roedd Tom a Gethin yn teimlo wrth iddyn nhw lanio'n ôl ar y ddaear? E.e. yn flinedig? Allan o wynt? Beth sy'n dweud hynny wrthyhych yn y llun? E.e. chwys, wynebau coch
- Beth arall sy'n digwydd i'ch corff pan fyddwch chi'n gwneud ymarfer corff?

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, cysylltu
- Dychmygu, archwilio, mynegi, creu
- Ymlaen, yn ôl, i'r ochr, yn uchel, yn isel, gorwedd, penlinio, sefyll
- Ysgwyd, crynu, troelli, chwyrlio

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o ruys-trau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu symudiadau i ymateb i wahanol symbyliadau?
- Yn archwilio ac yn mynegi hwyliau, teimladau a syniadau trwy symudiadau syml y gellir eu hailadrodd?
- Yn symud mewn gwahanol ffyrdd, gan greu siapiau amrywiol â'r corff a newid cyfeiriad a lefel?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar ei hoff air
- ymarfer 'Wrth iddynt ddatblygu sgiliau Symud' gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol. Sut gallai addasu'r gweithrediadau hyn fel eu bod nhw'n cysylltu â'r stori?
- gwylio plant eraill i gael syniadau. Gofynnwch beth mae'n ei hoffi? Sut gallai wneud hynny'n wahanol?
- trafod rhai o'r hwyliau a'r teimladau sydd yn y llyfr. Sut mae'n dangos ei fod yn teimlo'n ofnus? Sut roedd yn gwybod o edrych ar y lluniau bod y plant yn teimlo'n ofnus?

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Creadigol: Celf, crefft a dylunio – dylunio a gwneud cynnyrch syml, e.e. ceffyl pren
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Lleoedd a phobl
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: datrys problemau a gweithio'n gydweithredol
- Sgiliau Iaiith, Llythrennedd a Chyfathrebu: llyfrau ffeithiol am y gofod a chysawd yr haul

Anogwch y plentyn i:

- ddefnyddio mwy nag un cyfeiriad
- trafod siapiau'r corff, a thrafod pryd a sut gellid eu defnyddio
- perfformio ei weithrediadau am fwy o amser
- dychmygu beth sy'n digwydd rhwng rhai o'r digwyddiadau yn y stori, a chreu gweithrediadau i fynegi'r digwyddiadau hynny
- trafod ansawdd ei symudiadau, e.e. sut byddai cymal 'troi'n gyflym' yn wahanol i gymal 'troelli a chwyrlïo', ac ati?